OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 Rhif 1145 (Cy.81)

# GWASANAETHAU CYMORTH GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Cymru) 2000

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *6 Ebrill 2000* |
| *Yn dod i rym* | - - | *10 Ebrill 2000* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 22(4) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948(**1**) a phob pwer arall sy'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol yn y cyswllt hwnnw, ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**):–

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Cymru) 2000, a deuant i rym ar 10 Ebrill 2000.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

### Y swm y mae ei angen at anghenion personol

**2.** Y swm y mae'n rhaid i awdurdod lleol ragdybio o dan adran 22(4) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 y bydd ar berson ei angen at anghenion personol y person hwnnw fydd £15.45 yr wythnos.

### Diddymu

**3.** Mae Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) 1999(**3**), i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru, drwy hyn wedi'u diddymu.

(**1**) 1948 p.29. Gweler adrannau 35(1) a 64(1) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 i gael diffiniadau o the Minister a prescribed yn y drefn honno, ac erthygl 2 o Orchymyn yr Ysgrifennydd Gwladol dros Wasanaethau Cymdeithasol 1968 (O.S. 1968/1699) a drosglwyddodd holl swyddogaethau'r Gweinidog Iechyd i'r Ysgrifennydd Gwladol.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22(4) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(**3**) O.S.1999/549.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**).

*D. Elis Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

6 Ebrill 2000

(**4**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi'r swm wythnosol y mae'r awdurdodau lleol yng Nghymru i ragdybio, yn niffyg amgylchiadau arbennig, y bydd ar breswylwyr sydd mewn llety a drefnwyd o dan Ran III o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 ei angen at eu hanghenion personol.

O 10 Ebrill 2000 ymlaen, rhagdybir y bydd ar bob preswylydd o'r fath angen £15.45 yr wythnos at eu hanghenion personol.

Mae'r Rheoliadau hyn yn disodli, yng Nghymru, Reoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) 1999 (a oedd yn darparu ar gyfer y swm y rhagdybid bod ar breswylwyr ei angen o 12 Ebrill 1999 ymlaen) sy'n cael eu diddymu i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru.